

## Darganfod: Dechreuad a Chymuned Newydd

Gellir disgrifio dydd y Pentecost a dyfodiad yr Ysbryd Glân fel, "Dechreuad Newydd."

Yng nghyd-destun y **creu** y gwelir y cyfeiriad cyntaf yn y Beibl at Ysbryd Duw. Dywedir yn adnodau cyntaf Genesis, "Yn y dechreuad creodd Duw..." (Gen.1:1) a bod, "ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd." (Gen1:2). Gwelwn mai Ysbryd creadigol ydyw, sy'n dwyn ffurf, trefn a bywyd drwy rym ac egni Duw.

**Dyfodiad Iesu** oedd yr ail ddechreuad. Yn ôl Mathew a Luc cafodd Iesu ei "genhedlu o'r Ysbryd Glân". Dywed y ddau ohonynt mai dyn oedd yn llawn o'r Ysbryd Glân oedd Iesu o'r cychwyn cyntaf. Ynddo ef a thrwyddo ef, gwelwn ddechrau dynoliaeth newydd.

**Diwrnod y Pentecost** oedd y trydydd. Yn ogystal ag adfywio a thrawsnewid y disgyblion fel unigolion, creodd yr Ysbryd Glân gymuned newydd hefyd.

Tri dechreuad; ac Ysbryd Duw yn greadigol gyfrifol am bob un.

Ac yn y cyd-destun hwn carwn edrych ar arwyddocâd y Pentecost heddiw. Mae'r posibilrwydd bod yr Ysbryd Glân yn medru creu dynoliaeth newydd wedi'i wireddu trwy Iesu. Mae'r un Ysbryd ar gael i bawb.

Trawsfurfiwyd ymddygiad allanol y disgyblion. Cyn dydd y Pentecost roeddnt yn cuddio y tu ôl i ddrysau cloëdig. Pobl wedi eu digalonni a'u dadrithio a heb obaith oeddnt. Yna, daeth yr Ysbryd Glân, oedd yn ôl Luc, fel gwynt grymus yn llenwi'r holl dŷ a thafodau o dân.

Fel canlyniad i'w ddyfodiad rhyfeddol daeth dewrder, gobaiith a hyder newydd i'w galluogi i gyhoeddi'r Crist Croeshoeliedig ac Atgyfodedig, yn

gyhoeddus ac yn wrol gan ddatgan mai Ef yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd. Gyda dyfodiad yr Ysbryd Glân, trawsfurfiwyd eu cymeriad mewnol hefyd. Roedd ganddynt ffocws a chymhelliant newydd ac roedd hyn wedi'u newid yn llwyr. Nodweddwyd eu bywydau gan anhunanoldeb a gofal am eraill.

Yn ogystal â chreu dynoliaeth newydd, gwelwn yn ail sut creodd yr Ysbryd Glân gymuned newydd hefyd. Casglodd y sawl a brofodd yr Ysbryd at ei gilydd gan "ddal pob peth yn gyffredin", gan werthu eu heiddo a'u meddiannau i'w rhannu rhwng pawb yn ôl eu hangen.

Mae angen manau lle gall pobl deimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu derbyn. Dylai'n cyfeillach fel eglwysi gyfarfod ag anghenion pobl boed hynny'n emosiynol neu'n ysbrydol. Byddai'r ymwybyddiaeth o fod yn rhan o gymuned yn trawsnewid bywydau llawer. Ac os nad yw'r Eglwys yn cynnig cymdeithas o'r fath pwy arall wnaiff ei gynnig?

Dyma agwedd arall nad ystyriwn yn aml.

Nid creu cymuned leol newydd yn unig a wna'r Ysbryd Glân, ond cymuned ryngwladol newydd hefyd. Credai Luc hyn, ac wrth iddo 'sgrifennu hanes Dydd

y Pentecost diau fod Hanes Tŵr Babel yng nghefn ei feddwl. Yn ôl yr hanes, "Un iaith ac un ymadrodd oedd i'r holl fyd." (Gen. 11:1). Iaith oedd arwydd penna'r undod hwn. Yna, ceisiodd y bobl adeiladu tŵr a'i ben yn y nefoedd. Roedd y weithred hon yn ddatganiad trahaus o wrthryfel yn erbyn Duw.

Bu canlyniadau

difrifol i'r balchder. Dinistriwyd undod y bobl, cymysgwyd ieithoedd, a gwasgarwyd ieithoedd y bobl yn Fabel dros wyneb yr holl ddaear.

Un o ganlyniadau dyfodiad yr Ysbryd Glân ar ddiwrnod y Pentecost oedd galluogi'r disgyblion i gyfathrebu fel, "fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn ei iaith ei hun." (Act. 2:6) Cadarnhau mae Luc, bod yr Ysbryd Glân wedi dod i adnewyddu undod y ddynoliaeth aflonydd sydd ar hyn o bryd wedi ei ddarnio gan bechadurusrwydd.

Nid rhywbeth ar gyfer y dyfodol pell oedd y weledigaeth ddefnyddol hon chwaith. Ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, gallai Paul ysgrifennu at gynulleidfaoedd yr eglwysi a sefydlodd, "Nid oes rhagor rhwng Iddewon a

(parhad ar dudalen 2)

*"Ganwyd Crist; yr Ysbryd yw ei ragredegdydd. Bedyddiwyd Crist; mae'r Ysbryd yn tystio iddo. Cafodd Crist ei demtio; Arweiniodd yr Ysbryd ef. Cyflawnodd Grist wyrthbiau; Mae'r Ysbryd yn gydymaith iddo. Mae'r Crist yn cael ei ddyrchafu. Mae'r Ysbryd Glân yn llenwi ei le."*

Gregori o Nasiansws



<https://www.maxpixel.net>

Dyma esiampl o fyw cymunedol. Onid yw'r ymdeimlad hwn o gymuned ar goll yn ein byd heddiw?

Gellir dadlau, mai methiant ein cymunedau sydd wrth wraidd llawer o drafferthion ein cymdeithas heddiw. Nid ydym yn byw mewn cymunedau bellach ond mewn cylchoedd o gymdeithasau sydd wedi eu hynysu oddi wrth ei gilydd. Cymdeithaswn â rhai yn y gweithle; ac eraill yn ein hamser hamdden.

Mae'r gymdogaeth a drigwn ynddi i raddau helaeth yn anhysbys i ni. Yn ôl arolwg diweddar, canran fechan o bobl sy'n adnabod y bobl sy'n byw'r drws nesaf iddynt a llai fyth yw'r rhai fyddent yn gofyn am gymorth ganddynt. Rydym yn byw bywydau o arwahanrwydd bellach, bywydau sy'n anochel yn fywydau llawn pryder.

# Pigion o'r Gymdeithasfa yn y De

Gwerthfawrogwyd yn fawr y croeso cynnes a gafwyd gan eglwys Nantgaredig ar y 1af a'r 2ail o Fai pryd daeth cynrychiolaeth o weinidogion a blaenoriaid o'r tair Henaduriaeth ynghyd i Sasiwn ddeuddydd y gwanwyn.

## Adroddiadau

Roedd dydd Mercher yn ddiwrnod llawn iawn pryd cawsom adroddiadau o'r gwahanol bwyllgorau, gan gynnwys cronfa Tresaith, ac adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

Derbyniwyd a thrafodwyd y cenadwriau canlynol o'r Henaduriaethau,

1. Cronfa Treftadaeth y Loteri. Aeth y bleidlais o blaid caniatáu gwneud ceisiadau i Gronfa Treftadaeth y Loteri.
2. Ordeinio Ymgeiswyr i Weinidogaeth Amgen – Cytunwyd i aros am farn y pwyllgor gwaith gan fod y ddogfen yn cael ei diwygio ar hyn o bryd.
3. Ymgynghoriad ynglŷn â defnyddio un cyfreithiwr i'r Cyfundeb – penderfynwyd yn erbyn newid gan y teimlwyd fod y drefn bresennol yn gweithio.

## Croeso

Amser cinio roedd bwyd blasus wedi'i baratoi ar ein cyfer gan Gegin fach y Wlad, a chawsom fwynhau "Y Te Croeso" yn neuadd Pontargoethi – oedd yn rhoddedig gan eglwys Nantgaredig. Croesawyd Llywydd y Gymanfa

## Darganfod: Dechreuad a Chymuned Newydd

(parhad o dudalen 1)

Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chiwi oll yng Nghrist Iesu."

Hynny yw, mae'r rhwystrau a osododd y byd wedi'u chwalu.

Diddymwyd pob rhwystr ar sail hil – nid oes Iddew na Groegwr.

Diddymwyd pob rhwystr ar sail rhyw'r person – nid oes gwryw na benyw.

Diddymwyd pob rhwystr cymdeithasol – nid oes caeth na rhydd. Mae pawb yn un yng Nghrist Iesu.

Dyma yw arwyddocâd y Pentecost. Daeth yr Ysbryd Glân gan greu dynoliaeth newydd a chymuned newydd. Efallai bod angen Pentecost arall arnom heddiw, ond nid oes rhaid i ni aros amdano. Mae Duw, trwy'r Ysbryd Glân, yn bresennol ac yn weithgar yn ein byd heddiw. Cynigir yr Ysbryd yn rhodd i ni. Dyma'r rhodd fwyaf oll, pe buasem ond yn barod i agor ein calonau i'w dderbyn.

**Parch Ian Sims,**  
Llywydd y Gymdeithasfa yn y De

Gyffredinol, y Parch Brian Matthews, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Gymdeithasfa yn y Gogledd, sef y llywydd Mrs Cynthia Owen, a'r Dwyrain, Dr Michael Ward ysgrifennydd, hefyd y Parch Emyr Gwyn Evans yn cynrychioli, a dwyn cyfarchion ar ran yr Eglwys Rhyddion lleol.

## Llongyfarch

Yng nghyfarfod Unedig y Gweinidogion a'r Blaenoriaid, dan lywyddiaeth Mr Michael Jones, cafwyd cyfle i longyfarch a chyflwyno tystysgrif i'r Parch Dafydd Owen am chwe-deg mlynedd o wasanaeth, a hefyd i nifer o flaenoriaid oedd wedi cyrraedd carreg filltir arbennig.

## Ffydd a chredu



Cawsom wledd o glywed Dr Catrin Haf Williams yn traddodi anierchiad ardderchog ar "Agweddau ar Ffydd a Chredu". Yna, a thymor Mr Michael Jones yn dod i ben, cyflwynwyd yr awenau i Mr Cliff Williams.

## Trosglwyddo'r Awenau

Am 7 yr hwyr daeth nifer dda ynghyd i'r cyfarfod cyhoeddus, sef Cyfarfod Newid Llywydd, a chafwyd mwynhad mawr a bendith o wrando ar araiht ymadawol gofiadwy ein llywydd y Parchedig T. Evan Morgan BD a oedd wedi ein tywys fel Cymdeithasfa yn hwylus, yn drefnus a llawn hiwmor drwy ein cyfarfodydd ac yn ystod y flwyddyn. Dewisodd adnod o 1 Pedr 2 y darn olaf o adnod 21 "gan adael i chwi esiampl, ganlyn yn ôl ei draed Ef", a geiriau'r emyn "Arglwydd Iesu dysg i'm gerdded" fel testun. Yr her i ni heddiw yn y dyddiau anodd hyn, yw i adael i Dduw ein **cyffwrdd** ac i ninnau gyffwrdd â bywydau, a chalonnau dynion. Yn ail, fel Iesu, rydym i **gyfathrebu** cariad Duw â phobl "to see the sorrows of mankind" ac yn drydydd rhaid i'r eglwys **gerdded**; corff sy'n symud ydyw, a rhaid cerdded mäs i'n cymunedau.



**Parch Ian Sims**  
Llywydd newydd

Gweddiwyd gan Parch Glyn Tudwal Jones ac wedi i Mrs Margaret Jones ddiolch iddo, trosglwyddodd y Beibl i'w olynydd y Parch Ian Sims. Edrychwn ymlaen at gael ein harwain ganddo drwy'r flwyddyn sydd i ddod gan ddymuno pob bendith iddo yntau.

## Trefnu Ymlaen

Bore Iau, wedi gorffen y gwaith busnes, croesawyd Cymdeithasfa'r Hydref i Dabernacl Aberaeron, i'w chynnal ar Hydref y 23ain. Hefyd cadarnhawyd bod Cymdeithasfa'r Gwanwyn i'w chynnal ar Fai y 6ed a'r 7fed 2020 yn Henaduriaeth Morgannwg - Llundain.

## Heriau ein heddiw ni

Gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan anierchiad ardderchog a heriol y Parch Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn i'r Cynulliad. Soniodd am yr hinsawdd wleidyddol gynhennus sydd yn bodoli ar hyn o bryd a'r rhwystredigaeth sydd yn y boblogaeth ac fel mae'r ddadl wedi mynd ynglŷn â'n hunaniaeth. Wrth sôn am yr argyfwng newid hinsawdd bresennol, dywedodd bod rhaid i ni gydnabod ein bod wedi methu yn aruthrol i ofalu am greadigaeth Duw a bod angen i ni ddechrau gydag edifeirwch. Mae gennym rôl arbennig fel Cristnogion, meddai, i gynnal sgwrs gyda phobl wahanol i ni, a dod â phobl i gyd eistedd a thrafod.



## Cenadwriau arbennig

Dyma'r genadwri a ddaeth fel ymateb i'r drafodaeth fywiog a ddilynodd yr anierchiad :

"Gofynnwn, fel Cymdeithasfa'r De yng nghyfarfod yn Nantgaredig ar Fai'r ail 2019, ar i Adran Gweinidogaethau wrth bennu canllawiau ar gyfer Strategaethau Henaduriaethau ar gyfer y blynyddoedd 2020-2024 gynnwys ymateb i herion newid hinsawdd a wynebu'r rhaniadau yn ein cymdeithas ynghyd â delio gyda beichiau/gofidiau cymaint o'r genhedlaeth iau sydd gan fwyaf y tu allan i fywyd eglwys fel pynciau y disgwylir ystyriaeth ohonynt cyn cadarnhau unrhyw strategaeth".

## Cymuno

I orffen ein gweithgareddau cafwyd Oedfa Gymun, a'r Parch Dafydd Andrew Jones yn annerch gan ein hatgoffa mai "y bwrdd hwn yw'r ffurf uchaf ar addoliad a'n bod i nesáu mewn gostyngeddiddwydd, gan ein bod ar dir cysegredig. Mae'r Iesu yn y canol, a'r sacrament yn ein tynnu ni ato, ac yn ein tynnu ni at ein gilydd, ac at y byd hefyd. Yr agenda yw cariad, sy'n cyffwrdd, sy'n trawsnewid a thrawsfurfio". Diolch am oedfa arbennig.

Diolch i'r Parch Wyn Morris fel ysgrifennydd, i'r eglwys leol am eu paratoadau. Diolch am ddeuddydd bendithiol, a'r fraint o gael bod yno.

**Parch Llunus Mai Gordon**